**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2022 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| S E Keeton | M B Lewis | N L Matthews |
| T M White | R A Williams | B J Rowlands |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Simon Hughes | Prif Swyddog Cynllunio |
| Eilian Jones | Arweinydd Tîm Ardal |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd B J Rowlands

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M Bailey, M H Jones a/ac R D Lewis

---

### 34 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P M Black - Ceisiadau Cynllunio 2018/2629/FUL (Eitem 2) a 2021/0944/FUL (Eitem 4) - Personol a Rhagfarnol a gadawodd y cyfarfod cyn y drafodaeth

Y Cynghorydd P Downing - Ceisiadau Cynllunio 2018/2629/FUL (Eitem 2) a 2021/0944/FUL (Eitem 4) - Personol

Y Cynghorydd P Lloyd - Ceisiadau Cynllunio 2018/2629/FUL (Eitem 2) a 2021/0944/FUL (Eitem 4) - Personol

**35 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

**36 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim

**37 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r ceisiadau cynllunio isod yn unol â’r amodau yn yr adroddiad a/neu fel a nodir isod:**

**(Eitem 1) - Cais Cynllunio 2022/2017/FUL - Newidiadau mewnol i hwyluso’r newid defnydd o dŷ tafarn (Dosbarth A3) i annedd ar wahân (Dosbarth C3) yn Rock and Fountain, Rhyddwen Road, Craig-cefn-parc, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Tim Buxton (gwrthwynebydd) a Robert Bowen (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd Brigitte Rowlands (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**(Eitem 2) – Cais Cynllunio 2018/2629/FUL - Adeiladu 55 o anheddau ag isadeiledd cysylltiedig ar dir oddi ar Coed Bach Road, Pontarddulais, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Geraint John (asiant).

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:
Amod ychwanegol wedi'i ychwanegu fel a ganlyn:

26. Ni cheir meddiannu unrhyw annedd a gymeradwyir trwy hyn hyd nes y bydd Cynllun Gweithredu'r Gymraeg sy’n cynnwys y mesurau arfaethedig canlynol wedi’i gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo:

- Marchnata eiddo’n ddwyieithog;
- Cynhyrchu pecyn croeso i bob cartref sy'n nodi'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal;
- Sicrhau bod enwau strydoedd yn Gymraeg er mwyn gwarchod a hyrwyddo cymeriad ieithyddol lleol a hynodrwydd diwylliannol Pontarddulais.

Bydd y mesurau/argymhellion a gynhwysir yn y Cynllun Gweithredu'r Gymraeg cymeradwy yn cael eu gweithredu'n llawn wedi hynny.

Rheswm: Er mwyn sicrhau bod effaith y datblygiad ar y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth ddatblygu a marchnata’r cynnig ac o ran enwau lleoedd yno, yn unol â Pholisi HC3 y CDLl.

**Sylwer:** Cymeradwywyd y cais yn unol ag argymhelliad yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106 ac ychwaneg amod 26.

**(Eitem 3) - Cais Cynllunio 2021/1966/FUL - Adnewyddu ac adeiladu estyniadau cefn pedwar llawr ac estyniad bar to ac estyniad teras to i'r gwesty i ddarparu 42 ystafell wely ychwanegol a llety ategol yng Ngwesty'r Grand, Ivey Place, Canol y Ddinas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

**(Eitem 4) - Cais Cynllunio 2021/0944/FUL - Adeiladu 30 o fflatiau preswyl a gwaith cysylltiedig ar dir yn Upper Bank, Nantong Way, Pentrechwyth, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Geraint John (asiant).

**Sylwer:** Cymeradwywyd y cais yn unol â’r argymhelliad ar yr amod na fydd unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol newydd yn cael eu codi cyn 19 Rhagfyr 2022 pan ddaw’r hysbysiad i’r wasg i ben.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.23 pm

**Cadeirydd**